OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1478

## Gorchymyn Parth Arddangos Morlais 2021

## RHAN 2

### Darpariaethau ynghylch Gweithfeydd

*Pwerau atodol*

**Gollwng dŵr**

**12.**—(1) Caiff yr ymgymerwr ddefnyddio unrhyw gwrs dŵr neu unrhyw garthffos neu ddraen gyhoeddus i ddraenio dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw neu ddatgomisiynu'r gweithfeydd awdurdodedig ac at y diben hwnnw caiff osod, tynnu a newid pibellau a chaiff, ar unrhyw dir o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y tir, wneud agoriadau i'r cwrs dŵr, carthffos neu'r ddraen gyhoeddus a chysylltiadau ag ef/hi.

(2) Rhaid i unrhyw anghydfod sy'n deillio o arfer y pwerau ym mharagraff (1) i gysylltu â charthffos neu ddraen gyhoeddus neu ei defnyddio gael ei benderfynu fel pe bai'n anghydfod o dan adran 106 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(**1**).

(3) Rhaid i'r ymgymerwr beidio â gollwng unrhyw ddŵr i mewn i unrhyw gwrs dŵr, carthffos neu ddraen gyhoeddus oni cheir cydsyniad y person sy'n berchen arno neu arni; a chaiff y cyfryw gydsyniad ei roi yn ddarostyngedig i'r cyfryw delerau ac amodau ag y caiff yn rhesymol eu gosod, ond ni ellir ei atal yn afresymol.

(4) Rhaid i'r ymgymerwr beidio â gwneud unrhyw agoriad i mewn i unrhyw garthffos na draen gyhoeddus ac eithrio—

(a) yn unol â chynlluniau a gymeradwyir gan y person sy'n berchen ar y garthffos neu'r ddraen, ond ni ellir atal y cyfryw gymeradwyaeth yn afresymol; a

(b) pan fo'r person hwnnw wedi cael cyfle i oruchwylio gwneud yr agoriad.

(5) Rhaid i'r ymgymerwr, wrth arfer y pwerau a roddir gan yr erthygl hon, beidio â difrodi gwely na glannau unrhyw gwrs dŵr nac ymyrryd â hwy.

(6) Rhaid i'r ymgymerwr gymryd y cyfryw gamau ag sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod unrhyw ddŵr sy'n cael ei ollwng i mewn i gwrs dŵr neu garthffos neu ddraen gyhoeddus o dan y pwerau a roddir gan yr erthygl hon mor rhydd ag y bo'n ymarferol rhag gro, pridd neu sylwedd solet arall, olew neu sylwedd mewn toddiant.

(7) Nid yw'r erthygl hon yn awdurdodi unrhyw weithgarwch ynglŷn â dŵr daear na gweithgarwch gollwng dŵr o fewn ystyr Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016(**2**) nac yn trechu'r gofyniad i gael trwydded o dan reoliad 12(1)(b) o'r un rheoliadau.

(**1**) 1991 p. 56. Diwygiwyd adran 106 gan adrannau 35(1), 35(8) a 43(2) o Ddeddf Cystadleuaeth a Gwasanaeth (Cyfleustodau) 1992 (p. 43) ac Atodlen 2 i'r ddeddf honno, adrannau 36(2) a 99 o Ddeddf Dŵr 2003 (p. 37) a pharagraff 16(1) o Atodlen 3 i Ddeddf Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29).

(**2**) O.S. 2016/1154.

(8) Os bydd person sy'n cael cais am gydsyniad neu gymeradwyaeth yn methu â hysbysu'r ymgymerwr am benderfyniad o fewn 56 diwrnod i gael cais am gydsyniad o dan baragraff (3) neu gymeradwyaeth o dan baragraff (4)(a) tybir bod y person hwnnw wedi rhoi ei gydsyniad neu wedi rhoi ei gymeradwyaeth, yn ôl y digwydd.

(9) Yn yr erthygl hon—

(a) ystyr "carthffos neu ddraen gyhoeddus" yw carthffos neu ddraen sy'n perthyn i Cyfoeth Naturiol Cymru, bwrdd draenio mewnol, awdurdod lleol, neu ymgymerwr carthffosiaeth; a

(b) mae i ymadroddion eraill, heb gynnwys cyrsiau dŵr a ddefnyddir yn yr erthygl hon ac yn Neddf Adnoddau Dŵr 1991(**3**) yr un ystyr ag sydd yn y Ddeddf honno.

(**3**) 1991 p. 57.